# Rhybydd Cyhoeddus ynglyn a chyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai mewn Aml Ddeiliadaeth yng Ngwynedd

Mae'r rhybydd yma yn cael ei gyhoeddi yn unol ac Adran 56 a 60 or Ddeddf Tai 2004 ac Rheol 9 or Rheoliadau Trwyddedu a Rheolaeth Tai mewn Aml Ddeiliadaeth a thai eraill(Darpariaeth Amrywiol)(Cymru) 2006.

Rydym yn cyhoeddi fod Cyngor Gwynedd wedi penderfynnu dynodi Cynllun Trwyddedu Ychwanegol traws Sirol mewn perthynas o thai mewn aml-ddeiliadaeth. Mae'r cynllun yn berthnasol ir Sir gyfan.

Gelwir y Cynllun yn " Cynllun Trwyddedu Ychwanegol i Dai mewn Aml-ddeiliadaeth yng Ngwynedd(TAD)2021 – 2026.

Gwnaed y dynodiad gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Tai ar y 21.05.2021. Nid oedd angen cadarnhau'r dynodiad. Mae'r gymeradwyaeth gyffredinnol o dan y Ddeddf Tai 2004(Trwyddedu Ychwanegol)(Cymru)Cymeradwyo Cyffredinol 2007 yn berthasol ir dynodiad.

Bydd y dynodiad yn effeithiol ar y 04.06.2021 ac oni iddo gael ei ddiddymu ynghynt, bydd yn gorffen ar y 03.06.2026. Mae'r dynodiad yn berthnasol i holl dai mewn amlddeiliadaeth o fewn y Sir, eithr y rhai a eithrir o dan yr adrannau perthnasol or Ddeddf Tai 2004.

Anogir unrhyw landlord, reolwr/asiant gosod neu denant o fewn y Sir i geisio cyngor gan yr Adran Tai Breifat yn Cyngor Gwynedd i gadarnhau os yw'r dynodiad yn cael effaith ar eu heiddo nhw.

O dan Adran 72(1) or Ddeddf Tai 2004, mae person yn troseddu os yw'n berson sy'n rheoli, neu sydd a rheolaeth dros dy mewn aml ddeiliadaeth sydd angen ei drwyddedu, ond sydd heb ei drwyddedu. Mae person sy'n troseddu o dan yr Adran yma ar gollfarn ddiannod yn agored i ddirwy hyd at £20,000. Yn ychwanegol i hyn, gall fod yn ofynol iddo ad-dalu rhent hyd at 12 mis or amser y bu'r anedd heb ei drwyddedu.

Er mwyn ystyried cais am drwydded, rhaid ir manylion penodedig ar ffioedd perthnasol gael eu cynnwys. I dderbyn ffurflen gais, neu wybodaeth cyffredinnol cysylltwch ar Uned Tai Sector Breifat,

Cyngor Gwynedd, Swyddfa Arfon,  Penrallt, Caernarfon LL55 1BN Rhif ffôn (01286) 682853
wenaroberts@gwynedd.llyw.cymru

Gellir gweld  copi or dynodiad yn yr Uned Tai Sector Breifat, Cyngor Gwynedd, Swyddfa Arfon, Penrallt, Caernarfon LL55 1BN. I drefnu apwyntiad cysylltwch ar 01766 771000.

Llofnod  Dyddiad  04.06.2021

Pennaeth Adran Tai a Eiddo